Gwasanaeth Ynni
Energy Service

# Nodyn canllaw effeithlonrwydd ynni

## 10 Awgrym 'Cost Isel/Am Ddim' i Arbed Ynni

1. Drwy ostwng y tymheredd gosod 1ºC yn unig gellir arbed hyd at 8% ar yr ynni a ddefnyddir ar gyfer gwresogi, yn dibynnu ar yr hinsawdd awyr agored ac effeithlonrwydd presennol eich adeilad.

2. Dylid edrych eto ar MBau neu baneli rheoli a gwneud y defnydd gorau ohonynt, a sicrhau amseroedd ymlaen/diffodd priodol i'ch cyfnod gweithredu yn yr adeilad. Dylid ystyried diffodd eich gwres 1 awr cyn cau oherwydd dylai'ch adeilad gynnal gwres am ychydig a dylid cofio gwneud newidiadau yn unol ag arbediadau golau dydd. Dangoswyd hefyd y gellir arbed cryn dipyn o ynni drwy osod synwyryddion cydbwyso'r tywydd allanol yn hytrach na defnyddio thermostatau traddodiadol dan do.

3. Bydd ystafell yn cynhesu ar yr un cyflymder pe bai'r thermostat wedi ei osod ar 20ºC neu 25ºC. Os caiff y thermostat ei osod yn uwch na'r tymheredd sydd ei angen, bydd ynni'n cael ei wastraffu unwaith y bydd wedi cyrraedd y tymheredd hwnnw.

4. Dylid cynnal a chadw pibellau ac inswleiddio tanciau dŵr poeth mewn ystafelloedd peiriant i wella effeithlonrwydd. Os yw eich ystafell beiriant yn teimlo'n rhy gynnes yna y tebyg yw y dylech wella'r inswleiddio. Gall falf neu fflans heb ei hinsiwleiddio/ ei inswleiddio golli gwres yn cyfateb i 1m o bibellau heb eu hinsiwleiddio.

5. Dylid glanhau ffaniau, hidlwyr a dwythellau aer mewn systemau trin aer. Gall hyn sicrhau gwelliant o hyd at 60% yn effeithlonrwydd ynni systemau sydd heb eu cynnal a'u cadw'n dda.

6. Dylid gwirio amserwyr cloc am oleuadau allanol. Ydyn nhw'n cydfynd ag oriau golau dydd? Dylid gosod synwyryddion symud mewn mannau tawel lle caiff goleuadau eu cadw ymlaen yn aml. Toiledau ac ystafelloedd storio er enghraifft. Fel bob amser, dylid cymryd mai goleuadau LED yw'r unig opsiwn pan fyddwch yn newid hen systemau golau.

7. Dylid gosod mesurau atal drafftiau ar ddrysau ac ailselio ffenestri i osgoi colli gwres ychwanegol yn ystod misoedd y gaeaf.

8. Peidiwch ag anghofio trefniadau cynnal a chadw sylfaenol. Mae'n fwy anodd (a drutach)

gwresogi adeilad llaith nag un sych. Dylid edrych i weld a yw toeau, waliau, ffenestri, drysau, landeri, pibellau draen a draeniau i gyd mewn cyflwr da. Dylid trwsio gollyngiadau a chael gwared ar rwystrau a llystyfiant mawr o gwmpas adeiladau er mwyn atal dŵr rhag dod i mewn. Bydd hyn yn arbed costau trwsio yn yr hirdymor hefyd.

9. Bydd cynnwys staff yn y broses drwy ymgyrch coddi ymwybyddiaeth o ynni yn helpu pobl i arbed ynni yn y gwaith a gartref. Gyda mwy o staff yn gweithio gartref erbyn hyn, byddai cael diwrnodau tîm cyson yn y swyddfa a rhannu gofod gwaith yn lleihau llwythi ynni diangen. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys dysgu sut i ddefnyddio rheolyddion adeilad, lleihau'r defnydd o wresogyddion trydan annibynnol a chlirio prosesau cau.

10. Dylid gosod mesuryddion a dulliau monitro a defnyddio'r rhai presennol mewn adeiladau a chymryd darlleniadau rheolaidd i asesu perfformiad. Dylid ystyried cynnwys dulliau monitro ynni mewn rheolyddion MBau – gan sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau wedi'u gosod i wella data perfformiad. Ni allwch reoli rhywbeth heb ei fesur.

**Dysgwch fwy am y ffordd y gall Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru helpu eich menter gymunedol neu'ch sefydliad sector cyhoeddus:**

Gwefan: Clicwch yma | **E-bost:** ymholiadau@gwasanaethynni.cymru

@_gwasanaethynni | gwasanaeth-ynni-llywodraeth-cymru

Ariannir Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ("GYLIC") gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o ddatblygu prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus a thargedau ynni cenedlaethol. Cyflawnir GYLIC gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Phartneriaethau Lleol (y "Partneriaid Cyflawni"). Mae'r adroddiad hwn (yr "Adroddiad") wedi cael ei lunio gan y Partneriaid Cyflawni ac, er bod y farn a fynegwyd ynddo yn cael ei rhoi yn ddidwyll yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar ddyddiad yr Adroddiad hwn:- (i) nid yw'r safbwyntiau hyn o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru, nad yw'n atebol am unrhyw ddatganiad neu farn a fynegwyd yn yr Adroddiad; (ii) bwriad yr Adroddiad yw darparu arweiniad cyffredinol yn unig, yn hytrach na chyngor ariannol, cyfreithiol neu dechnegol at ddibenion unrhyw brosiect penodol neu fater arall, ac ni ddylai unrhyw un sy'n cael yr Adroddiad ddibynnu arno yn lle cael eu cyngor eu hunain gan gynghorydd trydydd parti priodol; a (iii) felly dylai unrhyw berson sy'n cael yr Adroddiad hwn gael ei gyngor ariannol, cyfreithiol, technegol a/neu gyngor proffesiynol perthnasol arall i'r graddau y mae angen arweiniad penodol arno ar ba gamau (os o gwbl) i'w cymryd, neu ymatal rhag eu cymryd, mewn cysylltiad ag unrhyw brosiect, menter, cynnig, ymwneud ag unrhyw bartneriaeth neu fater arall y gall gwybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad fod yn berthnasol; a (iv) nid yw'r Partneriaid Cyflawni yn atebol mewn cysylltiad â'r Adroddiad, nac am unrhyw ddatganiad yn yr Adroddiad a/neu unrhyw wall neu hepgoriad sy'n ymwneud â'r Adroddiad.